# Pigo, pigo!

Yr adeg hon o'r flwyddyn bydd adar weithiau'n ei chael yn anodd cael hyd i fwyd a dŵr. Gallwch chi helpu trwy wneud yn siŵr eu bod yn cael rhywbeth blasus i'w fwyta a'i yfed bob dydd.



## Beth sydd ei angen arnoch...

* Carton diod gwag
* Llinyn
* Pren i wneud clwyd
* Hadau adar
* Lard
* Siswrn
* Pensel
* Pren mesur
* Sosban
* Llwy bren




* Mae'n bwysig iawn bwydo'r adar, ond cofiwch lenwi'r bath adar hefyd â dŵr glân pan fydd yn rhewi. Gwnewch hynny ddwywaith y dydd os gallwch – y peth cyntaf yn y bore ac unwaith eto ganol pnawn ymhell cyn iddi dywyllu.




* Gwnewch yn siŵr fod y porthwyr a'r bwyd i gyd mewn lle diogel, o gyrraedd cathod a gwiwerod. A symudwch y byrddau adar bob dydd fel nad oes pentyrrau o fwyd yn cael ei ollwng – gallai hynny achosi clefydau.
* Gwnewch yn siŵr hefyd fod pob porthwr, dysgl ddŵr a bwrdd adar yn cael ei lanhau bob dydd a'i sgwrio â diheintydd gwan bob wythnos. A chofiwch wisgo menig rwber.



Bwyd adar posibl

Gallwch brynu hadau i adar gwyllt gan CJ WildBird Foods yn www.birdfood.co.uk, mewn siopau anifeiliaid anwes ac mewn rhai archfarchnadoedd a chanolfannau garddio. Mae adar hefyd yn hoffi cnau, caws, briwsion cacen a ffrwythau sych.

Ffotograff: Daniel Pangbourne, Lluniau: Dom Mansell Gwneuthurwr: Diane James



## Porthwr parod







**1** Golchwch a sychwch garton diodydd gwag. Dilynwch y ffotograff a'r lluniau a thynnu siâp tebyg ar yr ochrau a'r tu blaen. Torrwch y siâp allan.

**2** Stwfflwch ben y carton i'w gau os oes angen. Torrwch ddau dwll ar gyfer darn o linyn. Gwnewch dwll tua gwaelod y porthwr a gwthio darn hir o hoelbren (rhoden fach bren) drwyddo i wneud clwyd. Llenwch y porthwr â hadau adar a'i hongian oddi wrth gangen.

## Parti'r adar






**1** Bydd angen oedolyn i helpu y tro yma. Rhowch hanner y darn o lard mewn sosban a'i gynhesu'n araf iawn nes bydd yn toddi. Yna rhowch lond cwpan o hadau adar i mewn a'i dynnu oddi ar y gwres. Cymysgwch yn dda.

**2** Ar ôl i'r cymysgedd oeri rhywfaint, rhowch ef mewn potiau iogwrt gwag. Gwthiwch ddarn o linyn i ganol y cymysgedd cynnes. Pan fydd wedi oeri a chaledu, tynnwch y belen o saim allan yn ofalus a'i hongian ar gangen coeden. Dyna drît braf i'r titw!